Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Betws Gwerfil Goch
# Betws Gwerfil Goch
# Corwen
# LL21 9PY

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Betws Gwerfil Goch

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yng nghanol pentref Betws Gwerfil Goch yn sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu addysg i 31 o ddisgyblion o 3 i 11 oed, gyda 8 disgybl meithrin yn mynychu'r ysgol yn y prynhawn.  Mae dau ddosbarth oed cymysg yn yr ysgol, un yn y cyfnod sylfaen ac un yng nghyfnod allweddol 2.  Mae'r ysgol wedi ffedereiddio gydag Ysgol Bro Elwern.

Dros dreigl tair blynedd,  tua 6% o ddisgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.  Mae'r ysgol wedi adnabod bron i 10% o'i disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ffigwr sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Mae pob disgybl o gefndir gwyn, Prydeinig ac mae tua 68% yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol ei swydd ym Medi 2017 ac mae hefyd yn bennaeth ar Ysgol Bro Elwern fel rhan o ffederasiwn o ysgolion.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Mai 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau siarad, gwrando a darllen da.  Maent yn ddisgyblion cwrtais a pharchus sy’n ymddwyn yn ardderchog o gwmpas yr ysgol, ac o fewn gwersi.  Mae bron pob un yn datblygu fel dinasyddion gwybodus a moesol ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau â’u tasgau.

Mae’r addysgu yn gyffredinol dda ac mae’r athrawon a’r staff yn darparu cwricwlwm diddorol, gan adnabod anghenion y disgyblion yn dda.  Mae’r ysgol yn amgylchedd cynnes a gofalgar ble mae lles disgyblion yn cael blaenoriaeth uchel.

Mae’r arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol o fewn y ffederasiwn. Maent yn adnabod y cryfderau a’r gwendidau yn drylwyr ac yn cynllunio’n synhwyrol er mwyn sicrhau gwelliannau.  Maent yn gweld manteision gweithio o fewn ffederasiwn o ysgolion ac yn cychwyn defnyddio trefniadau o gydweithio effeithiol ymysg yr holl staff er mwyn rhannu arbenigeddau a gweithio ar wella’r ddarpariaeth ymhellach.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y cyfnod sylfaen

A2 Sicrhau bod adborth yr athrawon yn galluogi disgyblion i wybod sut i wella safon eu gwaith

A3 Lledaenu’r arferion addysgu gorau yn y ffederasiwn er mwyn sicrhau lefel o her briodol ar gyfer yr holl disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

O oed cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion a'i gilydd. Maent yn caffael geirfa a chystrawen yn effeithiol, gan eu defnyddio'n hyderus wrth ymateb i oedolion ac wrth sgwrsio â'u cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau llefaredd cadarn iawn yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn cyfrannu'n dda mewn trafodaethau wrth ystyried ffeithiau a safbwyntiau pobl am foddi Cwm Tryweryn, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed, a defnyddio geirfa goeth yn y Gymraeg.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus ac maent yn dangos diddordeb amlwg mewn darllen. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen yn hyderus ac yn rhugl gan fynegi barn am gynnwys eu llyfr a disgrifio'r digwyddiadau yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr brwd, sy'n darllen llyfrau ffuglen a ffeithiol yn hyderus. Maent yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, y digwyddiadau a'r cymeriadau yn dda. Mae bron pob un yn hyderus wrth gywain gwybodaeth o ffynhonnell print ac o'r we, gan ei defnyddio'n effeithiol yn eu gwaith, er enghraifft wrth gasglu a chofnodi gwybodaeth am afonydd Cymru.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi â gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau er mwyn cynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar. Mae'r disgyblion derbyn yn dechrau ysgrifennu mewn modd confensiynol, gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau byr, er enghraifft wrth ddisgrifio ffrwythau yn eu gwaith thema. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu i wahanol bwrpasau yn briodol, gan ddefnyddio iaith a geiriau sy'n addas i'r pwnc, er enghraifft wrth roi cyfarwyddiadau mewn trefn i lunio ryset crempog. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau brawddegau mewn amrywiol ffyrdd wrth ysgrifennu yn eu dyddiaduron, ac yn defnyddio cysyllteiriau ar gyfer creu effaith, gan atalnodi'n gywir gan amlaf. Fodd bynnag, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n ddigon annibynnol ac ymestynnol ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu da yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn synhwyrol mewn meysydd eraill y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer yn ysgrifennu'n gryno ac yn feirniadol wrth gofnodi canlyniadau eu hymchwiliadau gwyddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu dychymyg yn dda, er enghraifft mewn dyddiadur am brofiad plentyn yn yr ystod yr Ail Ryfel Byd. Maent yn strwythuro eu gwaith mewn paragraffau trefnus â brawddegau difyr sydd wedi eu hatalnodi'n gywir, er enghraifft wrth greu adroddiad papur newydd am foddi Cwm Tryweryn.

Trwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fathemategol briodol o fesur, arian, amser a thrin data. Yn eu gwaith thema am fwyd, maent yn defnyddio offer priodol er mwyn cyfrifo pwysau gwahanol ffrwythau, cofnodi mewn gramau yn gywir, a chyflwyno eu canlyniadau mewn pictogram deniadol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon cadarn ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif, mesur, siâp a gofod yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o rif wrth gyfrifo gwahaniaethau rhwng poblogaeth prif ddinasoedd y byd yn gywir. Maent yn defnyddio eu medrau mesur, siâp, rhif ac arian yn effeithiol mewn cyfuniad er mwyn cynllunio tŷ, er enghraifft, gan ddarganfod arwynebedd a chost deunydd i'r llawr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol wrth gwblhau ymchwiliadau gwyddonol a chyflwyno'u canlyniadau mewn graffiau cywir.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gofnodi ac argraffu pictogram o ddull teithio'r disgyblion i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio meddalwedd arlunio'n fedrus i greu lluniau o bysgod ac ychwanegu testun i'w disgrifio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau TGCh yn addas i gefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill. Maent yn defnyddio prosesydd geiriau i gyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn drefnus a deniadol, er enghraifft wrth greu portread o Hedd Wyn ac wrth greu ffeil o ffeithiau am wledydd y byd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio taenlenni yn bwrpasol i gynhyrchu tablau a graffiau, er enghraifft i ddangos glawiad yn Llyn Celyn a hyd afonydd gwahanol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn falch o'u cyflawniadau. Mae ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol yn helpu iddynt deimlo'n ddiogel ac maent yn gwybod at bwy i droi os oes unrhyw broblemau. Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn ardderchog o gwmpas yr ysgol, ac o fewn gwersi. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn hynod o gwrtais a pharchus gydag ymwelwyr, oedolion a disgyblion eraill.

Drwy gyfrannu'n wybodus mewn gwersi ac adnabod pethau bwyd sy'n cynnwys llawer o fraster neu siwgwr, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Maent yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i ymuno mewn gweithgareddau amrywiol sydd ar gael yn yr ysgol, fel clybiau chwaraeon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cynnig syniadau ar beth hoffent eu ddysgu. Maent yn gwrando'n astud ac yn ystyried barn eraill yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r heriau ychwanegol y maent yn eu derbyn yn y dosbarth ac mae bron pob un yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau â'u tasgau yn dda iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion hŷn yn cydweithio'n effeithiol gyda'r disgyblion iau, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn arwain trafodaethau yn aeddfed ac yn bwyllog er mwyn helpu sicrhau bod pob unigolyn yn cael chwarae teg. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae bron pob un disgybl yn datblygu’n ddinasyddion gwybodus a moesol. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol ac yn hoff o’r cyfleoedd i gyfrannu tuag at weithgareddau'r amrywiol gynghorau. Maent yn datblygu’n ddysgwyr hyderus gyda’r gallu i weithio’n annibynnol pan fo cyfleoedd i wneud hynny. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn ymwybodol o’u targedau unigol ar gyfer gwella eu medrau.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Gan amlaf, mae’n llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn gadarn wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn fodelau iaith arbennig, sy’n hybu’r disgyblion i siarad Cymraeg yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd da i ddisgyblion adeiladu ar eu profiadau blaenorol, gan lunio cyfres o wersi dilynol, trefnus. Mae’r cymhorthydd dosbarth yn cynnig cymorth effeithiol iawn i’r dysgu a’r addysgu yn y cyfnod sylfaen. Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dysgu yn briodol. Yn gyffredinol, maent yn teilwra gweithgareddau dosbarth yn addas i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o weithgareddau yn y cyfnod sylfaen yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae’r athrawon yn adnabod dealltwriaeth y disgyblion drwy holi medrus a monitro eu dysgu drwy asesiadau pwrpasol. Maent yn rhoi adborth llafar defnyddiol i’r disgyblion ac yn cynnig sylwadau ysgrifenedig sy’n clodfori’r disgyblion am waith da. Fodd bynnag, anghyson yw ansawdd y sylwadau er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion wybod beth y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd pwrpasol a defnyddiol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, lle bo’n briodol.

Mae'r cynlluniau gwaith ar gyfer y cwricwlwm o safon dda ac yn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae’r cwricwlwm yn adeiladu’n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae’r athrawon yn cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb i ddisgyblion ac yn rhoi cyfleodd iddynt gyfrannu at yr hyn y maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, yn eu thema ‘cofio’, mae’r athrawon yn croesawu syniadau’r disgyblion am enwogion pêl-droed, ac yn y thema ‘y goedwig’, maent yn teilwra gwersi i ystyried cynefinoedd ac anifeiliaid gwahanol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd yn y cyfnod sylfaen i ddisgyblion gymhwyso’u medrau ysgrifennu na’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn darparu rhaglenni cymorth effeithiol i ddisgyblion wella eu medrau, er enghraifft er mwyn cryfhau medrau sillafu a darllen disgyblion.

Gan amlaf, mae’r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion y cyfnod sylfaen yn briodol. Mae athrawon ac arweinwyr yn cynllunio a chyflwyno cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio’r awyr agored er mwyn datblygu eu dysgu a’u medrau. Fodd bynnag, mae gormod o weithgareddau’r cyfnod sylfaen yn dueddol o gael eu harwain gan oedolion ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â'u dysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a hapus sy'n blaenoriaethu lles disgyblion. Mae'r staff yn sicrhau amgylchedd cynnes a gofalgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol, fel cystadlaethau'r Urdd.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i adnabod ac olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth, fel profion safonedig. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r canlyniadau i drefnu cymorth neu her ychwanegol ar gyfer disgyblion, er enghraifft wrth gryfhau eu medrau llythrennedd. Mae cymorthyddion dosbarth yn cefnogi disgyblion yn effeithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau o fewn y dosbarth, a thalu sylw manwl i'w llafaredd Cymraeg. Mae'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni yn effeithiol ac mae'r wybodaeth sydd yn cael ei rhannu mewn nosweithiau rhieni ac mewn adroddiadau ysgrifenedig yn glir ac yn ddefnyddiol.

Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae trefniadau addas ar waith i'w cefnogi. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn glir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion.

Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol i hyrwyddo gwerthoedd fel parch at eraill, ac mae'r rhain yn helpu'r disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol. Mae'r sesiynau cydaddoli a'r cyfnodau myfyrio yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion, ac yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio a datblygu eu medrau meddwl. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig, er enghraifft mewn gwasanaethau ysgol gyfan ac o fewn gwersi, yn llwyddiannus. Atgyfnerthir hyn drwy drefnu cyfleoedd i'r disgyblion berfformio mewn cyngerdd Nadolig yn y capel lleol a thrwy gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Mae gweithgareddau'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn rhoi cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu medrau arweinyddiaeth, er enghraifft wrth drefnu diwrnodau gwisgo pyjamas er mwyn codi arian at elusen. Yn ogystal, mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion hŷn arwain gweithgareddau, fel trefnu gwasanaeth gwrth-fwlio ar gyfer disgyblion iau, yn helpu datblygu disgyblion hyderus a meddylgar.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar greu cymuned dysgu lle mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu a chyflawni'n dda. Mae'r pennaeth yn rhannu'r weledigaeth hon yn glir gyda staff ysgolion y ffederasiwn, aelodau'r corff llywodraethol, y rhieni a'r disgyblion. O ganlyniad, mae gan yr holl randdeiliaid ymwybyddiaeth dda o berfformiad ysgolion y ffederasiwn, ac o gyflawniad a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth fedrau arwain cadarn ac effeithiol. O fewn cyfnod byr, mae wedi sefydlu nifer o strategaethau sydd wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth, ac atgyfnerthu ymwybyddiaeth o undod ar draws y ffederasiwn. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol er mwyn codi safonau, cyflawniad a lles disgyblion.

Trwy gydweithio’n agos â’r pennaeth ac arweinwyr, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau.  Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am berfformiad yr ysgolion, ac mae eu rôl fel ffrind beirniadol yn datblygu’n addas. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau prosesau monitro i wneud penderfyniadau strategol am ddatblygiad ysgolion y ffederasiwn.

Mae’r adroddiadau hunanarfarnu yn ddogfennau teg a gonest sy’n adlewyrchu’r cryfderau a’r materion i’w gwella o fewn dwy ysgol y ffederasiwn yn dda.  Maent wedi eu seilio ar dystiolaeth uniongyrchol ddilys, fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion.  Mae’r pennaeth yn crynhoi ac yn defnyddio’r wybodaeth o’r prosesau hyn yn fedrus er mwyn gosod cyfeiriad synhwyrol i wella’r ysgolion.  Mae’r cynllun datblygu ysgol ar gyfer ysgolion y ffederasiwn yn cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau synhwyrol.  Mae’r arweinwyr yn adnabod gweithgareddau pwrpasol er mwyn bodloni’r blaenoriaethau ac yn clustnodi adnoddau a staff yn effeithiol er mwyn eu cwblhau.

Mae prosesau rheoli perfformad addas gan arweinwyr er mwyn datblygu staff a sicrhau ansawdd da eu gwaith.  Caiff staff fynediad priodol i ystod berthnasol o ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant defnyddiol.  Mae’r staff yn cydweithio’n llwyddiannus o fewn y ffederasiwn, sy’n cychwyn cryfhau eu gallu i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth gydgynllunio meysydd y cwricwlwm a rhannu arbenigeddau.  Fodd bynnag, mae’n rhy fuan i weld effaith lawn y cydweithio hwn.

Mae arweinwyr yn sicrhau defnydd priodol o gyllideb yr ysgol er mwyn gwella’r ddarpariaeth.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2018